Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Fframwaith cyffredin dros dro: Safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu

Awst 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7571**
E-bost: **Lucy.Valsamidis@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Diweddariadau mewn amser real** | **Diweddariadau wythnosol a misol**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Fframwaith cyffredin dros dro:
# Safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu

Awst 2022

**Awduron:**
Lucy Valsamidis a Sara Moran

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig y **fframwaith cyffredin dros dro ar safonau bwyd a labelu** ar gyfer gwaith craffu ym mis Chwefror 2022, yn dilyn fersiwn gynharach ym mis Mawrth 2021.

Mae fframweithiau cyffredin yn gytundebau rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ynghylch sut i weithio gyda'i gilydd a rheoli achosion o ymwahanu mewn meysydd a lywodraethwyd ar lefel yr UE gynt.

Pan fydd yr holl seneddau wedi cwblhau gwaith craffu, mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn bwriadu cytuno ar fersiwn derfynol o'r fframwaith cyffredin.

Ddechrau 2022, **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd graffu** ar y fframwaith cyffredin dros dro ar safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu a gwnaeth argymhellion yn ei gylch i Lywodraeth Cymru.

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r fframwaith dros dro.

# Cynnwys

**Crynodeb** ........ **1**

**1. Cefndir** ........ **2**

Deddfwriaeth ........ 3

Rhwymedigaethau rhyngwladol ........ 5

Y cyd-destun polisi ........ 8

**2. Y fframwaith cyffredin** ........ **9**

Egwyddorion fframweithiau cyffredin ........ 9

Egwyddorion safonau cyfansoddiad bwyd a labelu ........ 9

**3. Cwmpas** ........ **10**

O fewn cwmpas ........ 10

Y tu allan i'r cwmpas ........ 11

Meysydd polisi cysylltiedig ........ 11

**4. Rheoli achosion o ymwahanu** ........ **12**

Cydweithio ........ 12

Gwneud penderfyniadau ar ymwahanu ........ 12

Rôl yr Asiantaeth Safonau Bwyd ........ 13

Rheoli effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ........ 14

Rheoli achosion o ymwahanu â Gogledd Iwerddon....14

Rheoli newidiadau yn y dyfodol i gyfraith yr UE a ddargedwir .... 15

**5. Datrys anghydfodau ....15**

**6. Rheoli rhwymedigaethau rhyngwladol ....16**

Masnach ryngwladol .... 16

Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE.... 16

Safonau cyfansoddiad bwyd a safonau labelu rhyngwladol ....17

**7. Monitro, adolygu a diwygio....18**

**8. Tryloywder ac atebolrwydd ....19**

# Crynodeb

Fel Aelod-wladwriaeth o'r UE, roedd y DU yn dilyn cyfraith yr UE. Mae'n pennu rhai safonau wedi'u cysoni ar gyfer cyfansoddiad bwyd a labelu. Lle nad oedd safonau cyson wedi'u pennu, roedd yn darparu i'r safonau gael eu cydnabod gan y ddwy ochr.

Ers i gyfnod pontio Brexit ddod i ben, caiff Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban ymwahanu â chyfraith yr UE a ddargedwir. O dan Brotocol Gogledd Iwerddon yn y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE, mae Gogledd Iwerddon yn parhau i gyd-fynd â chyfraith yr UE ar safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu.

Mae'r fframwaith cyffredin yn nodi sut y bydd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rheoli achosion o ymwahanu yn y cyd-destun newydd hwn. Mae'r llywodraethau'n cytuno i drafod ar y cyd newidiadau i'r gyfraith a pholisi yng nghwmpas y fframwaith. Yn ystod y broses hon, maent yn cytuno i beidio â lansio ymgynghoriad cyhoeddus na bwrw ymlaen â'r newid arfaethedig mewn unrhyw ffordd arall. Os na all y llywodraethau gytuno a ddylid mabwysiadu'r un dull neu ymwahanu, gellir defnyddio'r broses datrys anghydfod.

Mae'r fframwaith yn nodi y defnyddir y broses o wneud penderfyniadau ar y cyd nid yn unig ar gyfer penderfyniadau mewn meysydd a oedd yn arfer cael eu llywodraethu ar lefel yr UE, ond hefyd mewn meysydd lle y mae cyfraith yr UE yn caniatáu ar gyfer mesurau cenedlaethol i gyflawni canlyniadau cyffredin. Ar y llaw arall, dim ond penderfyniadau mewn meysydd a oedd yn arfer cael eu llywodraethu ar lefel yr UE y mae'r **fframwaith cyffredin diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid** yn darparu ar eu cyfer, a dim ond pan fyddant yn effeithio ar egwyddorion y fframwaith

Bydd y llywodraethau'n ceisio cytuno ynghylch mabwysiadu'r un dull o ran cyfraith a pholisi neu ymwahanu. Os na fydd y llywodraethau'n cytuno ynghylch mabwysiadu'r un dull neu ymwahanu, byddant yn ceisio datrys yr anghytundeb ar y lefel isaf posibl. Yna, gallant uwchgyfeirio'r anghytundeb i uwch-swyddogion ac i Weinidogion..

Rhan o ddiben y fframwaith yw sicrhau gweithrediad marchnad fewnol y DU. O dan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020, yn gyffredinol, mae modd i nwyddau a fewnforir i un rhan o'r DU neu a ganiateir yn y rhan honno gael eu gwerthu mewn unrhyw ran arall o'r DU.. Gallai hyn gyfyngu ar effaith ymarferol newidiadau

i gyfraith Cymru ar safonau cyfansoddiad bwyd a labelu. Mae'r pedair llywodraeth wedi cytuno ar broses ar gyfer trafod eithriadau i'r Ddeddf mewn meysydd fframwaith cyffredin, ond ni chyfeirir at hynny yn y fframwaith.

Mae'r fframwaith hefyd yn ceisio galluogi'r broses o negodi rhwymedigaethau rhyngwladol a'u rhoi ar waith. I'r perwyl hwn, mae'n nodi rhai ymrwymiadau i Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gydweithio ar rwymedigaethau rhyngwladol perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys llawer o wybodaeth am sut y bydd y llywodraethau'n ymgysylltu â chyrff rhyngwladol perthnasol ac nid yw'n cyfeirio o gwbl at y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE.

Mae'r fframwaith yn darparu i'r llywodraethau drafod goblygiadau newidiadau i'r gyfraith ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) o ran cysondeb â Gogledd Iwerddon, a goblygiadau newidiadau i gyfraith yr UE sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon o ran cysondeb â Phrydain Fawr.

Nid yw'r fframwaith yn cynnwys gofyniad i'r llywodraethau roi'r wybodaeth ddiweddaraf i seneddau a rhanddeiliaid am ei weithrediad na'u cynnwys wrth ei adolygu a'i ddiwygio. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig wedi cytuno mewn egwyddor i adrodd yn rheolaidd ar y fframweithiau cyffredin. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno'n unochrog i adrodd i'r Senedd ar y fframweithiau cyffredin ac i ymgynghori â'r Senedd a rhanddeiliaid yn ystod gwaith adolygu a diwygio.

# 1. Cefndir

Mae cyfraith yr UE yn pennu rhai safonau wedi'u cysoni o ran cyfansoddiad bwyd a labelu. Pan na fydd safonau cyson wedi'u pennu, mae'n darparu i'r safonau gael eu cydnabod gan y ddwy ochr.

Caiff Aelod-wladwriaethau'r UE fabwysiadu mesurau cenedlaethol ar faterion sydd y tu hwnt i gwmpas y rheoliadau wedi'u cysoni, ar yr amod nad ydynt yn rhwystro symudiad rhydd nwyddau o fewn yr UE.

Pan na fydd safonau wedi'u cysoni o ran nwyddau, mae'r **egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol** yn creu rhagdybiaeth gyffredinol (gyda rhai eithriadau) y gellir gwerthu nwyddau a ganiateir mewn un Aelod-wladwriaeth mewn Aelod-wladwriaeth arall.

Gan fod y DU bellach wedi ymadael â'r UE, mae'r rhan fwyaf o gyfraith yr UE wedi'i dargadw mewn cyfraith ddomestig. Mae swyddogaethau a phwerau wedi eu

trosglwyddo o sefydliadau'r UE i awdurdodau domestig.

Gall Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU wneud newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir ar safonau cyfansoddiad bwyd o fewn eu cymhwysedd. Rhaid i Ogledd Iwerddon barhau i gyd-fynd â chyfraith yr UE ar safonau cyfansoddiad bwyd a labelu o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

Mae'n rhaid i'r DU hefyd gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, gan gynnwys safonau rhyngwladol, cytundebau newydd rhwng y DU a'r UE, a chytundebau masnach rydd.

## Deddfwriaeth

### Cyfraith yr UE a ddargedwir

#### Rheoliadau'r UE a gorfodaeth genedlaethol

Mae rheoliadau'r UE yn pennu rhai safonau cyson o ran cyfansoddiad bwyd a labelu. Mae Rheoliadau'r UE yn uniongyrchol gymwys mewn Aelod-wladwriaethau a chawsant eu dargadw mewn cyfraith ddomestig ar ddiwedd y cyfnod pontio. Gorfodir y rheoliadau drwy ddeddfwriaeth ddomestig ym mhob rhan o'r DU.

Prif Reoliad yr UE ar wybodaeth am fwyd yw **Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011** (a orfodir yng Nghymru gan **Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014)**. Mae'r Rheoliad hwn yn nodi rheolau ar gyfer gwybodaeth am fwyd, gan sefydlu:

- egwyddorion cyffredinol o ran gwybodaeth am fwyd;
- cyfrifoldeb gweithredwyr busnesau bwyd i ddarparu gwybodaeth am fwyd;
- gofynion gorfodol o ran gwybodaeth am fwyd (gan gynnwys enw'r bwyd, rhestr o'r cynhwysion, symiau, amodau storio, tarddiad, y dyddiad defnyddio olaf, a datganiad maeth) (wedi'i ategu gan **Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/775**);
- gofynion o ran gwybodaeth am fwyd a roddir yn wirfoddol (er enghraifft, ni ddylai'r wybodaeth a roddir yn wirfoddol fod yn gamarweiniol nac yn ddryslyd); ac
- y caiff Aelod-wladwriaethau ofyn am wybodaeth orfodol ychwanegol am fwyd, os gellir cyfiawnhau hynny ar sail diogelu iechyd y cyhoedd, hawliau defnyddwyr neu eiddo a chydag awdurdodiad y Comisiwn.

Mae rheoliadau hefyd yn nodi gofynion ychwanegol wedi'u cysoni ar gyfer cynhyrchion penodol:

- Mae **Rheoliad (EU) Rhif 1379/2013** yn sefydlu ffordd o gyd-drefnu marchnadoedd ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaeth, gan gynnwys pennu gofynion labelu. Mae **Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009** a **Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 404/2011** yn nodi rheolau ar gyfer olrhain cynhyrchion pysgodfeydd, a **Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2013** sy'n gorfodi'r rheolau hyn.
- Mae **Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013** yn sefydlu ffordd o gyd-drefnu marchnadoedd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol, gan gynnwys rheolau ar safonau marchnata ar gyfer cynhyrchion penodol fel brasterau taenadwy, olew olewydd a gwin. Mae **Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008** yn gorfodi rheolau a nodir yn y Rheoliad ar frasterau taenadwy a llaeth a chynhyrchion llaeth.
- Mae **Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU**) Rhif 1337/2013 yn nodi rheolau ar nodi'r wlad tarddiad ar gyfer cynhyrchion cig ffres, rhai wedi'u hoeri a rhai wedi'u rhewi. Mae **Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015** yn gorfodi'r rheolau hyn.

### Cyfarwyddebau a'u rhoi ar waith yn genedlaethol

Yn ogystal â threfniadau rheoleiddio wedi'u cysoni, mae Cyfarwyddebau'r UE yn pennu nodau ar gyfer safonau cyfansoddiad bwyd a pholisi labelu ar gyfer rhai cynhyrchion. Aelod-wladwriaethau sy'n rhoi'r Cyfarwyddebau ar waith mewn deddfwriaeth genedlaethol.

Yn gyffredinol, mae llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig wedi trawsosod y Cyfarwyddebau drwy setiau o reoliadau ar wahân ond cyfochrog.

Mae'r fframwaith yn rhestru rheoliadau gweithredu perthnasol sy'n ymwneud â chwmpas y gofynion o ran cyfansoddiad, disgrifiad a labelu dŵr potel; cynhyrchion siocled a choco; rhin coffi a sicori; sudd ffrwythau a neithdarau; mêl; jam a chynhyrchion tebyg; cynhyrchion siwgr penodedig; caseinau a chaseinadau (a ddefnyddir i wneud caws ac fel ychwanegion bwyd); a llaeth cyddwys a sych.

## Trosglwyddo swyddogaethau

Ar ôl diwedd y cyfnod pontio, mae'r rhan fwyaf o gyfraith yr UE ar safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu wedi'i chadw fel 'cyfraith yr UE a ddargedwir' o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018. Caiff Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig bellach wneud newidiadau i'r corff hwn o gyfreithiau.

Er mwyn sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn parhau i weithio ar ôl diwedd y cyfnod pontio, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi gwneud nifer o offerynnau cywiro o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018. Gwnaed hyn yn dilyn **ymgynghoriad ar newidiadau i reoliadau labelu bwyd** yn 2018.

Mae'r rheoliadau cywiro yn trosglwyddo swyddogaethau o'r UE i awdurdodau ar lefel y DU ac yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r rheoliadau sy'n cywiro Rheoliad 1169/2011 yr UE yn:

- **disodli pwerau'r Comisiwn** i wneud mân newidiadau i'r ofynion o ran gwybodaeth am fwyd drwy Ddeddf ddirprwyedig, gyda phwerau i Weinidogion Cymru (neu'r Ysgrifennydd Gwladol, os bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi eu caniatád) wneud newidiadau o'r fath (Erthygl 51).
- **dileu gofyniad** i'r Comisiwn fabwysiadu Deddfau gweithredu i wneud newidiadau penodol i'r gyfraith o ran gwybodaeth am fwyd ar ôl cael cyngor gan y Pwyllgor Sefydlog ar y Gadwyn Fwyd ac Iechyd Anifeiliaid, gan gyflwyno pwerau gweinidogol o dan y weithdrefn negyddol yn lle hynny (Erthygl 48); a
- **dileu gofyniad** i ymgynghori ag Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ar newidiadau'r UE i'r gyfraith o ran gwybodaeth am fwyd sy'n debygol o effeithio ar iechyd y cyhoedd (Erthygl 5).

Yng Nghymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n gyfrifol am gynghori ar bolisi safonau cyfansoddiad bwyd a labelu ac am wneud argymhellion i Weinidogion. Defra sy'n gyfrifol am wneud hyn ar gyfer Llywodraeth y DU; yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Ngogledd Iwerddon; a Food Standards Scotland yn yr Alban.

### Deddfwriaeth ddomestig nad yw'n deillio o'r UE

Mae rhywfaint o ddeddfwriaeth ddomestig ar safonau cyfansoddiad bwyd a labelu nad yw'n deillio o'r UE, gan gynnwys **Rheoliadau Bara a Blawd 1998** a'r **Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig etc. (Cymru) 2014**. Serch hynny, gellir ystyried rhywfaint o'r ddeddfwriaeth hon drwy'r fframwaith. Trafodir hyn ymhellach yn adran 2 isod.

## Rhwymedigaethau rhyngwladol

Mae'r DU wedi ysgwyddo rhwymedigaethau rhyngwladol newydd y byddai'r UE yn eu harfer ar ei rhan yn flaenorol ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am negodi rhwymedigaethau rhyngwladol, ond y **llywodraethau datganoledig sy'n gyfrifol am eu dilyn a'u gweithredu** o fewn eu cymhwysedd.

Mae rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n ymwneud â bwyd yn effeithio ar sawl math o rwymedigaeth rhyngwladol a sawl maes perthnasol, o fasnachu bwyd yn rhyngwladol i ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd a hawliau dynol.

## Rhwymedigaethau rhyngwladol

Mae'r hawl i fwyd, gan gynnwys bwyd digonol, wedi'i hymgorffori mewn nifer o gonfensiynau rhyngwladol, er enghraifft **Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol** y Cenhedloedd Unedig (ICESR).

Mae nifer o gyrff a safonau sy'n berthnasol i safonau cyfansoddiad bwyd a labelu. Er enghraifft:

- Comisiwn Codex Alimentarius yw'r corff rhyngwladol sy'n gosod safonau bwyd gofynnol (gan gynnwys labelu), canllawiau a chodau ymarfer ar gyfer pob math o fwyd;
- mae Sefydliad Iechyd y Byd y Cenhedloedd Unedig a'r Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth yn datblygu safonau;
- mae cytundebau Sefydliad Masnach y Byd o ran mesurau iechydol a ffytoiechydol a rhwystrau technegol i fasnach yn pennu'r meincnod ar gyfer cysoni safonau bwyd byd-eang;
- mae'r **Sefydliad Safoni Rhyngwladol** (ISO) yn datblygu safonau sy'n ymwneud â bwyd, diogelwch bwyd a maeth; a
- mae'r Cenhedloedd Unedig wedi datblygu **Nod Datblygu Cynaliadwy 2**, i wella maeth, a **Nod Datblygu Cynaliadwy 3** ar fywydau iach a llesiant.

## Rhwymedigaethau'r DU a'r UE

### Y Cytundeb Ymadael: Protocol Gogledd Iwerddon

O dan y Protocol, rhaid i Ogledd Iwerddon barhau i gyd-fynd â chyfraith yr UE mewn rhai meysydd, gan gynnwys safonau cyfansoddiad bwyd a labelu.

Mae goblygiadau i'r Protocol o ran masnachu bwyd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr:

- ar gyfer nwyddau sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, mae cyfraith berthnasol yr UE yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon; ac
- ar gyfer nwyddau sy'n symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr, mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau **mynediad dirwystr** rhwng Gogledd

Iwerddon a Phrydain Fawr yn golygu y gall nwyddau cymwys symud yn rhydd ar y cyfan, gydag ambell eithriad.

Y prif fforwm ar gyfer trafod rhoi'r Protocol ar waith yw **Cyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael** (gweler **erthygl Ymchwil y Senedd**). Ers iddo ddod i rym, mae'r Protocol wedi bod yn destun **nifer o anghydfodau rhwng y DU a'r UE.**

### Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn nodi ein rhwymedigaethau sy'n berthnasol i safonau cyfansoddiad bwyd a labelu, yn benodol:

- darpariaethau tegwch yn y farchnad (sy'n cynnwys effeithiau amgylcheddol cynhyrchu bwyd, yn enwedig y defnydd o wrthfiotigau a sylweddau dihalogi); a
- gofynion helaeth i gydymffurfio ag offerynnau rhyngwladol, gan gynnwys cytundebau Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig.

## Masnach ryngwladol

Mae Llywodraeth y DU yn negodi cytundebau masnach â gwledydd eraill ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben.

Er enghraifft, bydd cytundebau masnach rydd gydag **Awstralia** a **Seland Newydd** yn cyflwyno mynediad llawn heb dariff ar gyfer mewnforion amaethyddol i'r DU yn raddol dros nifer o flynyddoedd.

**Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon** y gallai cytundebau masnach arwain at gynnydd mewn mewnforion o wledydd sydd â safonau gwahanol neu is o ran bwyd o gymharu â'r DU.

Mae'n **rhaid i Lywodraeth y DU gyflwyno adroddiad** ynghylch a yw cytundebau masnach penodol yn gyson ag amddiffyniadau statudol ar iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, lles anifeiliaid a'r amgylchedd, wedi'i lywio gan gyngor y **Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth**.

Yn 2021, argymhellodd yr **Adroddiad ar y Strategaeth Fwyd Genedlaethol** (a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU) y dylid gofyn i'r Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth ddiffinio set graidd o safonau bwyd i'r DU, ac mai dim ond ar gyfer cynhyrchion sy'n bodloni'r safonau hyn y dylai'r DU gytuno i ddileu tariffau mewnforio mewn cytundebau masnach.

## Y cyd-destun polisi

Mae gan Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig safbwyntiau gwahanol ar gysoni neu ymwahanu â chyfraith yr UE a ddargedwir.

Fodd bynnag, mae'r llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd ar newidiadau arfaethedig i gyfraith safonau bwyd a labelu mewn rhai achosion. Ym mis Ebrill 2022, **dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Senedd** fod Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn gweithio gyda'i gilydd ar adolygiad o'r Rheoliadau Bwyd a Blawd.

### Cymru

Yn ystod y negodiadau rhwng y DU a'r UE, **nododd Llywodraeth ddiwethaf Cymru** ei bod am gael cysondeb parhaus â chyfraith yr UE.

Mae **Mick Antoniw, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, wedi dweud** na ddylid rhanddirymu'r safonau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt a bod Llywodraeth Cymru am wella safonau yng Nghymru yn y meysydd cyfrifoldeb datganoledig.

Ar lefel ddomestig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant bwyd a diod o 2021** ym mis Tachwedd. Mae'r ddogfen hon yn nodi cynlluniau ar gyfer datblygu'r diwydiant bwyd a diod tan 2025.

### Gweddill y DU

Yn **Lloegr**, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **strategaeth fwyd** ym mis Mehefin 2022. Mae hyn yn dilyn yr **adroddiad annibynnol ar y Strategaeth Fwyd Genedlaethol** yn 2020-21. Dywed y strategaeth fwyd y bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar gynigion i wella ac ehangu gofynion labelu gorfodol yn 2023.

Mae **Llywodraeth yr Alban** yn bwriadu parhau i gyd-fynd â chyfraith yr UE mewn sawl maes gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (yr Alban) 2021.

Bydd **Gogledd Iwerddon** yn parhau i gyd-fynd â chyfraith yr UE ar safonau cyfansoddiad bwyd a labelu o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

# 2. Y fframwaith cyffredin

Cyhoeddwyd y fframwaith cyffredin dros dro ar safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu ym mis Chwefror 2022 ar ôl cyhoeddi fersiwn gynharach ym mis Mawrth 2021.

Mae'r fframwaith yn cynnwys cytundeb fframwaith amlinellol a Choncordat:

- mae'r cytundeb fframwaith amlinellol yn nodi sut y bydd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Safonau Bwyd yr Alban, a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn gweithio gyda'i gilydd i reoli achosion o ymwahanu yng nghyfraith a pholisi safonau cyfansoddiad bwyd a labelu ar ôl diwedd y cyfnod pontio;
- mae'r Concordat yn sail i'r fframwaith ac fe gytunir arno'n ffurfiol gan Weinidogion.

Mae'r fframwaith yn ddogfen anneddfwriaethol ac ni fydd modd ei orfodi.

## Egwyddorion fframweithiau cyffredin

Mae'r fframwaith yn cadarnhau'r **egwyddorion ar gyfer fframweithiau cyffredin** y cytunodd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) arnynt ym mis Hydref 2017.

Nododd y Cyd-bwyllgor chwe maen prawf ar gyfer sefydlu fframweithiau cyffredin. Mae'r fframwaith yn nodi bod angen iddo fodloni tri o'r meini prawf hyn:

- galluogi marchnad fewnol y DU i weithredu, ond gan gydnabod achosion o ymwahanu o ran polisi;
- sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol; a
- sicrhau y gall y DU drafod cytundebau masnach a chytundebau rhyngwladol newydd, ymrwymo iddynt a'u rhoi ar waith.

## Egwyddorion safonau cyfansoddiad bwyd a labelu

Mae'r llywodraethau'n cytuno i roi ystyriaeth briodol i ddwy egwyddor arall wrth wneud penderfyniadau:

- bod gan ddefnyddwyr yr hawl i gael gwybodaeth glir a chywir am fwyd, i wneud dewisiadau gwybodus, iach a diogel; ac
- y dylid cefnogi busnesau sy'n cydymffurfio i fasnachu ledled y DU gyda chyn lleied o rwystrau â phosibl.

# 3. Cwmpas

Mae'r fframwaith yn nodi pryd y dylai newidiadau polisi fod yn ddarostyngedig i'r prosesau a sefydlir ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd.

## O fewn cwmpas

Mae'r fframwaith yn nodi y bydd newidiadau o fewn cwmpas os bydd llywodraeth yn cynnig newid cyfraith neu bolisi:

- mewn maes lle y mae pwerau'n cael eu dychwelyd;
- mewn maes lle y mae cyfraith yr UE yn caniatáu i wahanol ddeddfwriaeth ddomestig gyflawni canlyniadau cyffredin (fel y Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg); neu
- o ran gofynion ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u lleoli mewn un rhan yn unig o'r DU neu gynhyrchion a ddosberthir mewn un rhan yn unig o'r DU.

Mae hyn yn awgrymu y bydd y llywodraethau'n ymrwymo i wneud penderfyniadau ar y cyd ar safonau cyfansoddiad bwyd a labelu, hyd yn oed mewn rhai achosion lle byddent wedi bod yn rhydd o'r blaen i reoleiddio'n wahanol pan oedd y DU yn rhan o'r UE.

**Cymhariaeth: Y Fframwaith Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid**

Mae'n ymddangos bod llai o hyblygrwydd yn y fframwaith i Lywodraeth Cymru wneud newidiadau heb fynd drwy broses o wneud penderfyniadau ar y cyd o gymharu â'r fframwaith Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid..

Mae'r fframwaith diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid yn nodi:

- ni fydd newidiadau mewn meysydd lle y caiff pwerau eu dychwelyd yn rhan o'r fframwaith oni bai eu bod yn effeithio ar egwyddorion y fframwaith;
- dylai newidiadau i reolau ar gyfer cynhyrchion a sefydliadau mewn un rhan yn unig o'r DU fod yn ddarostyngedig i'r prosesau o ran rhoi hysbysiad, ond nid y prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd; a
- dylai newidiadau fod y tu allan i'r cwmpas pan fo cyfraith yr UE yn caniatáu mesurau cenedlaethol i gyflawni canlyniadau cyffredin.

Nid yw'n glir pam y mae'n ymddangos bod y fframwaith safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu yn llai hyblyg.

## Y tu allan i'r cwmpas

Ni fydd newidiadau i orfodi safonau cyfansoddiad bwyd a chyfraith labelu o fewn cwmpas, gan fod cyfraith yr UE yn caniatáu i ddeddfwriaeth ddomestig wneud darpariaeth ar gyfer gorfodi.

Mae'r fframwaith hefyd yn nodi bod rhai rhannau o'r polisi safonau cyfansoddiad bwyd a labelu yn dod o dan gyfraith ddomestig, yn hytrach na chyfraith yr UE (er enghraifft, y **Rheoliadau Bara a Blawd 1998** a **Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig etc. (Cymru) 2014**.)

Mae'n dweud y dylai'r llywodraethau geisio trafod newidiadau yn y meysydd hyn a cheisio sicrhau cytundeb ar draws y DU lle bo hynny'n bosibl. Ni fydd newidiadau o'r fath yn rhwym i'r broses datrys anghydfod.

## Meysydd polisi cysylltiedig

Mae'r fframwaith yn cydnabod ei fod wedi'i gysylltu'n agos â'r fframweithiau ar ddiogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, labelu sy'n gysylltiedig â maeth a safonau cyfansoddiad, a chymorth amaethyddol.

Mae'r fframwaith yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am sut y bydd y fframweithiau'n cyd-blethu, gan gadarnhau:

- bydd y datganiad maeth gorfodol o fewn cwmpas y fframwaith labelu sy'n gysylltiedig â maeth a safonau cyfansoddiad (EU 1169/2011 Adran 3, erthyglau 29-35);
- bydd y polisi labelu alergenau o fewn cwmpas y fframwaith diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid; a
- bydd dynodiadau llaeth ar gyfer safonau marchnata o fewn cwmpas y fframwaith cymorth amaethyddol.

Mae hefyd yn ymddangos yn bosibl y gallai'r fframwaith hwn ryngweithio â fframweithiau eraill mewn meysydd polisi cysylltiedig, megis cynnyrch organig neu iechyd a lles anifeiliaid, neu feysydd o gyfraith yr UE a ddargedwir lle nad oes fframweithiau wedi'u cynllunio.

Nid yw'r fframwaith yn ystyried sut y dylid rheoli achosion o ryngweithio â meysydd polisi eraill sy'n rhan o'r fframwaith neu nad ydynt yn rhan o'r fframwaith.

# 4. Rheoli achosion o ymwahanu

## Cydweithio

Mae'r fframwaith yn sefydlu grŵp i ddod â swyddogion o bob rhan o'r DU ynghyd i drafod polisi safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu ac i wneud argymhellion i Weinidogion.

Bydd y grŵp o swyddogion yn cyfarfod bob chwarter neu ar gais unrhyw barti. Bydd y cynrychiolwyr o'r gwahanol lywodraethau yn cadeirio yn eu tro.

Prif gyfrifoldebau'r grŵp fydd:

- galluogi'r llywodraethau i ystyried cynigion ar gyfer deddfwriaeth safonau cyfansoddiad bwyd a labelu;
- ystyried a ddylid bwrw ymlaen â chynigion ar gyfer un rhan o'r DU neu ledled y DU;
- hwyluso'r gwaith o ddatblygu polisi amlochrog;
- ceisio cytuno ar ddulliau cyffredin a rheoli achosion posibl o ymwahanu;
- cydgysylltu'r gwaith o ymgysylltu â seneddau a rhanddeiliaid;
- darparu safbwynt cydgysylltiedig yn y DU ar safonau cyfansoddiad bwyd a labelu er mwyn cyfleu neges glir a chyson.

Bydd y grŵp yn gallu creu gweithgorau i ystyried newidiadau polisi a gynigir.

## Gwneud penderfyniadau ar ymwahanu

Mae'r llywodraethau'n cytuno y byddant yn gallu ymwahanu o ran cyfraith a pholisïau pan fydd tystiolaeth glir bod hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur i ddiwallu anghenion lleol.

Mae'r fframwaith yn nodi proses i'r llywodraethau wneud penderfyniadau ar newidiadau i'r gyfraith a pholisi yng nghwmpas y fframwaith.

Os yw llywodraeth am gynnig newid, dylai gyflwyno'r cynnig hwnnw i grŵp y swyddogion a fydd yn ystyried a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig. Gallai hyn fod ar draws y DU/Prydain Fawr neu mewn un rhan yn unig. Bydd y swyddogion yn ystyried y cynnig ac yn casglu tystiolaeth a fydd yn cael ei rhannu rhwng y partïon pan fo hynny'n bosibl.

Yn ystod y broses hon, ni fydd y llywodraeth sy'n cynnig newid yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus nac yn bwrw ymlaen â'r newid arfaethedig mewn ffordd arall.

Os bydd y swyddogion yn cytuno ar y newid, caiff y newid ei uwchgyfeirio i Weinidogion gytuno arno. Os na fydd y swyddogion yn cytuno, defnyddir y broses datrys anghydfod.

Mae **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd wedi codi pryderon** am effaith hyn ar rôl Llywodraeth Cymru, y Senedd a rhanddeiliaid wrth wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru. Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** na fydd y fframwaith yn effeithio ar bwerau datganoledig.

## Rôl yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol am gynghori Gweinidogion Cymru ar safonau cyfansoddiad bwyd a labelu. Bydd yr Asiantaeth yng Nghymru yn cynrychioli Cymru mewn trafodaethau swyddogol ar reoli achosion o ymwahanu drwy'r fframwaith.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn adran anweinidogol yn Llywodraeth y DU. Penodir y rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Llywodraeth y DU.

Mae gan Weinidogion Iechyd Cymru a Gogledd Iwerddon y pŵer i benodi un aelod i'r Bwrdd. Mae'r **Aelod Bwrdd dros Gymru** yn cadeirio **Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru**. Mae'r Pwyllgor hwn yn cynghori'r Asiantaeth ar bolisi bwyd yng Nghymru. Mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd Gyfarwyddwr sy'n gyfrifol am Gymru hefyd. Mae **adroddiad blynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'i hadroddiad blynyddol ar gyfer Cymru** yn cael eu gosod gerbron y Senedd yn ogystal â Senedd y DU. Mae **oddeutu 40** o bobl yn gweithio i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, mewn cymhariaeth ag **oddeutu 1,150** sy'n gweithio i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn San Steffan.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Asiantaeth ar sail concordat. Cafodd hwn ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2016. **Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru** fod y concordat yn cael ei adolygu mewn gohebiaeth â Phwyllgor Materion Allanol y Bumed Senedd ynglŷn â'r fframwaith diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid ar ddechrau 2021.

Ym mis Mehefin 2021, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru** adolygiad o weithrediad

yr Asiantaeth yng Nghymru, gyda chylch gwaith i ystyried "a yw'r strwythurau presennol, y drefn lywodraethu a'r ffordd o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol ac yn addas i gyflawni cylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru". Nid yw'n glir pa gynnydd y mae'r adolygiad hwn wedi'i wneud. Ym mis Ebrill 2022, **dywedodd Llywodraeth Cymru** nad yw wedi gallu dod o hyd i gontractwr i gynnal yr adolygiad.

## Rheoli effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

Rhan o ddiben y fframwaith yw sicrhau bod marchnad fewnol y DU yn gweithredu.

Mae **Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020** yn nodi egwyddorion cyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu ar gyfer symud nwyddau rhwng gwahanol rannau o'r DU.

Mae hyn yn golygu, yn gyffredinol, y gall cynhyrchion bwyd a ganiateir mewn unrhyw ran o'r DU neu gynhyrchion a fewnforir i unrhyw ran o'r DU gael eu gwerthu'n awtomatig mewn unrhyw ran arall, yn amodol ar nifer fach o eithriadau (megis diogelu iechyd y cyhoedd).

Er enghraifft, gallai'r llywodraethau gytuno drwy'r fframwaith y gallai Llywodraeth Cymru osod rheolau gwahanol ar gyfer labelu bwyd. Fodd bynnag, gallai bwyd sydd wedi'i labelu mewn ffordd a ganiateir mewn unrhyw ran arall o'r DU neu fwyd a fewnforir i unrhyw ran arall o'r DU barhau i gael ei werthu yng Nghymru.

Mae gan Lywodraeth y DU bwerau i greu eithriadau newydd o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad neu amrywio'r rhestr o nodau dilys drwy reoliadau. Mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig wedi cytuno ar **broses ar gyfer ystyried eithriadau o'r Ddeddf mewn meysydd fframwaith cyffredin, a chytuno arnynt.** Nid yw'r fframwaith yn cyfeirio at y broses hon.

## Rheoli achosion o ymwahanu â Gogledd Iwerddon

O dan brotocol Gogledd Iwerddon, bydd safonau cyfansoddiad bwyd a labelu'r UE yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon. Gallai hyn arwain at achosion o ymwahanu rhwng Prydain Fawr a'r UE/Gogledd Iwerddon.

Mae'r fframwaith yn nodi'r canlynol:

- wrth i Lywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU wneud penderfyniadau ynghylch polisi a'r drefn reoleiddio, bydd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cymryd rhan mewn trafodaethau a bydd ei barn yn cael ei hystyried yn llawn;

- pan fydd rheolau yng Ngogledd Iwerddon yn newid i fod yn gydnaws â'r UE, bydd y llywodraethau'n ystyried y newidiadau ac yn pennu effeithiau a chamau gweithredu dilynol.

Os bydd Gweinidogion Gogledd Iwerddon yn credu nad yw eu pryderon wedi cael digon o sylw, gallant ddefnyddio proses datrys anghydfod y fframwaith.

### Rheoli newidiadau yn y dyfodol i gyfraith yr UE a ddargedwir

Mae **Llywodraeth y DU wedi nodi cynlluniau** i gyflwyno Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir i'w gwneud yn haws newid neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir ac i ddileu'r statws arbennig sydd ganddi yng nghyfraith y DU.

**Mae Llywodraeth y DU wedi dweud** na fydd yn ceisio gwneud newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir o fewn Fframweithiau Cyffredin heb ddilyn y prosesau y cytunwyd arnynt gan weinidogion ym mhob fframwaith.

## 5. Datrys anghydfodau

Mae'r fframwaith yn cynnwys proses ar gyfer datrys anghydfodau rhwng y llywodraethau. Mae'n nodi na ddylid defnyddio'r broses datrys anghydfod oni fydd y partïon yn methu â chytuno ar gynnig polisi; os bydd un parti o'r farn bod eraill heb gadw at y paramedrau ar gyfer llywodraethu'r fframweithiau; neu os bydd parti o'r farn bod eraill heb ddilyn egwyddorion Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE).

Caiff unrhyw barti roi gwybod i grŵp y swyddogion am anghytundeb. Yna caiff grŵp y swyddogion gynnull cyfarfod o'r partïon. Bydd y partïon yn nodi eu safbwyntiau ac yn trafod opsiynau ar gyfer datrys yr anghydfod, gan gynnwys cyfryngu a chomisiynu tystiolaeth bellach.

Os na chaiff yr anghydfod ei ddatrys, gellir ei uwchgyfeirio i uwch-swyddogion ac i Weinidogion yn y pen draw. Nid oes amserlenni wedi'u pennu ar gyfer y broses hon.

Os na ellir datrys yr anghydfod drwy'r broses hon, gellir ei drosglwyddo i'r broses datrys anghydfod rhynglywodraethol a nodir yn y **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Ddatganoli**. Ym mis Ionawr 2022, **cytunodd y llywodraethau** ar broses datrys anghydfod rhyngweinidogol newydd fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. **Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** fod hyn yn gam sy'n torri tir newydd.

Nid yw'r fframwaith yn darparu ar gyfer hysbysu seneddau na rhanddeiliaid o anghydfodau. Fodd bynnag, **mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo** i hysbysu'r Senedd o anghydfodau.

# 6. Rheoli rhwymedigaethau rhyngwladol

Rhan o ddiben y fframwaith yw sicrhau y gall y DU negodi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol.

Mae'r fframwaith yn nodi rhai ymrwymiadau i'r DU a llywodraethau datganoledig gydweithio ar negodi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol.

Mae'r llywodraethau'n cytuno y bydd llunio polisi rhyngwladol yn seiliedig ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Datganoli presennol a'r Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol sy'n cyd-fynd ag ef ac y byddant yn awtomatig yn defnyddio unrhyw Goncordat Cysylltiadau Rhyngwladol wedi'i ddiweddaru, a chanlyniadau ehangach y Cydadolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol.

Cafodd y **Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol** ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2013; ni chafodd ei ddiwygio fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Nid yw'r Concordat yn adlewyrchu'n benodol rôl gynyddol Llywodraeth y DU o ran cytuno ar rwymedigaethau rhyngwladol ar ôl Brexit mewn meysydd a oedd o fewn cymhwysedd yr UE gynt, megis masnach.

## Masnach ryngwladol

Mae'r fframwaith yn nodi y bydd yn caniatáu i'r llywodraethau ystyried goblygiadau sy'n deillio o fasnach ryngwladol sy'n cael effaith uniongyrchol ar weithrediad Fframwaith Cyffredin.

Mae'n dweud y bydd y DU yn ceisio sicrwydd cadarn o ran safonau bwyd cyn llofnodi cytundebau masnach.

Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** y bydd y fframwaith yn "rhoi cyfle i drafod safbwyntiau'r DU ar faterion polisi FCSL, gan gynnwys lle y gallant fod yn berthnasol i drafod neu weithredu cytundeb masnach".

## Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE

Mae rhai fframweithiau'n darparu i Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gydweithio wrth weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r

UE. Maent yn darparu y caiff cynrychiolwyr y llywodraethau datganoledig fynychu cyfarfodydd perthnasol rhwng y DU a'r UE, yn unol ag **ymrwymiadau ehangach Llywodraeth y DU**.

Nid yw'r fframwaith hwn yn cyfeirio o gwbl at Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE. Mae'n ymddangos bod rhywfaint o destun yn y fframwaith heb gael ei ddiweddaru ers i drafodaethau'r DU a'r UE ddod i ben: er enghraifft, mae'n nodi bod yr UE yn debygol o geisio sicrwydd cadarn o ran safonau bwyd cyn llofnodi cytundebau masnach.

## Safonau cyfansoddiad bwyd a safonau labelu rhyngwladol

Mae'r fframwaith yn nodi ei fod wedi'i gynllunio i sicrhau y gall y DU barhau i gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol, megis aelodaeth o Bwyllgorau'r Codex a Sefydliad Masnach y Byd. Fodd bynnag, prin yw'r wybodaeth am sut y bydd yn gwneud hyn.

Nid yw'r fframwaith yn cyfeirio o gwbl at:

- sut y bydd y llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd i roi'r cyfreithiau neu'r safonau rhyngwladol perthnasol ar waith; nac
- a fydd y llywodraethau'n ceisio cytuno ar safbwynt cyn cynadleddau rhyngwladol arwyddocaol ar safonau (fel y mae Aelod-wladwriaethau'r UE yn ei wneud).

**Cymhariaeth**: y Fframwaith Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a'r Fframwaith Labelu Cysylltiedig â Maeth, Cyfansoddiad a Safonau

Er ei fod yn cydnabod safonau rhyngwladol Sefydliad Masnach y Byd a Phwyllgorau'r **Codex**, mae'r fframwaith safonau cyfansoddiad bwyd a labelu yn cyfeirio llai at safonau rhyngwladol na'r fframweithiau cyffredin eraill sy'n gysylltiedig â bwyd (sef y fframwaith diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid a'r fframwaith labelu sy'n gysylltiedig â maeth a safonau cyfansoddiad).

Yn benodol, mae'r fframwaith labelu sy'n gysylltiedig â maeth a safonau cyfansoddiad yn cynnwys cynigion manwl ar gyfer cynrychiolaeth y DU ar gyrff rhyngwladol penodol a'i chyfranogiad ohonynt. ond, er mai dim ond nifer gyfyngedig o gyrff rhyngwladol a gynrychiolir, ni welir yr un fath o gynigion yma.

Sefydlwyd Comisiwn y Codex Alimentarius ar y cyd ym 1961 gan Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig a Sefydliad Iechyd y Byd fel rhan o'u Rhaglen Safonau Bwyd.

Mae Comisiwn y Codex yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac mae ganddo **sawl Pwyllgor sy'n berthnasol** i'r fframwaith labelu sy'n gysylltiedig â maeth a safonau cyfansoddiad na sonnir amdanynt yn y Concordat sy'n ymwneud â'r maes hwn, gan gynnwys pwyllgorau ar labelu bwyd (dan ofal Canada) a maeth (dan ofal yr Almaen). Mae Pwyllgorau Cydgysylltu Rhanbarthol yn bodoli i ddiffinio'r problemau a'r anghenion o ran safonau bwyd a geir ym mhob rhanbarth. Mae'r DU wedi bod yn aelod o Gomisiwn y Codex Alimentarius ers 1963 ac mae'n rhan o Bwyllgor Cydgysylltu Ewrop, sydd â 52 o aelodau (51 aelod-wladwriaeth ac un sefydliad, sef yr UE).

Mae'r cyd-destun rhyngwladol yn debyg iawn, os nad yn union yr un fath, ar gyfer pob un o'r meysydd fframwaith hyn, ac felly nid yw'n glir pam mae rhai fframweithiau'n cynnwys telerau sy'n fwy ffafriol nag eraill ar gyfer ymgysylltu â llywodraethau datganoledig ynghylch materion rhyngwladol.

Hefyd, mae ymrwymiadau rhyngwladol yn y dyfodol yn debygol o effeithio ar y fframwaith safonau cyfansoddiad bwyd a labelu, gan gynnwys datblygu a mireinio safonau rhyngwladol. Er nad yw'r rhain yn gyfrwymol o reidrwydd, maent yn arwydd o'r newid a welir pan fo gwledydd sy'n masnachu bwyd yn symud o system ddwyochrog o gydnabod cyfwerthedd safonau ei gilydd, i system fyd-eang, amlochrog o gytuno ar gyfwerthedd er lles pawb. Nid yw'r fframwaith yn rhagweld sut y gellid ymateb i newidiadau o'r fath.

# 7. Monitro, adolygu a diwygio

Bydd y grŵp swyddogion safonau cyfansoddiad bwyd a labelu yn monitro gweithrediad y fframwaith yn ei gyfarfodydd chwarterol. Bydd y grŵp yn asesu cydweithrediad rhynglywodraethol ar y fframwaith, cydymffurfiaeth ag egwyddorion y fframwaith, ac a fu unrhyw achosion niweidiol o ymwahanu.

Bydd y llywodraethau'n cynnal adolygiad o'r fframwaith flwyddyn ar ôl iddo gael ei weithredu, a phob tair blynedd wedi hynny. Bydd adolygiad yn ystyried a yw agweddau llywodraethu'r Fframwaith Cyffredin a'i agweddau ymarferol yn gweithio'n effeithiol, ac a oes angen adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed dros y tair blynedd diwethaf mewn cytundeb anneddfwriaethol wedi'i ddiweddaru. Gall y llywodraethau gynnal adolygiad eithriadol i drafod 'mater o bwys'.

Yn dilyn adolygiad, gall y llywodraethau gytuno i ddiwygio'r fframwaith yn unfrydol. Rhaid derbyn unrhyw newid yn unfrydol hefyd. Os na fydd cytundeb, gellir defnyddio'r broses datrys anghydfod.

## 8. Tryloywder ac atebolrwydd

Mae'r fframwaith yn nodi y ceisiwyd barn rhanddeiliaid wrth ei ddatblygu. Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** y cynhaliodd y llywodraethau ymgysylltiad â rhanddeiliaid ar y fframwaith ym mis Hydref 2020 a mis Mehefin 2021. Nid ymatebodd rhanddeiliaid yng Nghymru ym mis Hydref 2020. Aeth tri grŵp rhanddeiliaid o Gymru i ddigwyddiad ar-lein am y fframwaith ym mis Mehefin 2021.

**Cwblhaodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd waith craffu** ar y fframwaith dros dro ym mis Mawrth 2022. Mae **Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi** a **Phwyllgor Iechyd a Chwaraeon Senedd yr Alban** hefyd wedi ystyried y fframwaith.

Nid oes ymrwymiad i gynhyrchu na chyhoeddi adroddiadau ar weithrediad y fframwaith. Mae **Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo** yn unochrog i adrodd yn flynyddol ar y fframweithiau. Ym mis Tachwedd, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** fod y llywodraethau oll wedi cytuno i adrodd i'r seneddau ar y fframweithiau cyffredin yn y dyfodol.

Nid oes unrhyw ymrwymiadau i roi rôl i seneddau o ran monitro gweithrediad y fframwaith na chraffu ar welliannau. Dywed y fframwaith y gall y llywodraethau ddefnyddio trydydd partïon i gynghori ar adolygu a diwygio'r fframwaith. Gallai hyn gynnwys cyrff llywodraeth neu randdeiliaid allanol. Ym mis Mawrth, **cytunodd y Cwnsler Cyffredinol** i hysbysu'r Senedd a rhanddeiliaid pan gaiff fframwaith cyffredin ei adolygu, a thrafod eu hargymhellion cyn i'r broses adolygu ddod i ben.